## Cronfa Bensiwn Cyngor Sir Powys

# Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i Gynghorwyr

## *Hysbysiad i Optio Allan o Gynilo Pensiwn*

*Fe'ch cynghorir i gael cyngor ariannol cyn optio allan.*
*Sicrhewch eich bod chi wedi darllen y nodiadau ar gefn y ffurflen hon; os fyddwch yn penderfynu nad ydych am barhau yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i Gynghorwyr, cwblhewch a dychwelwch y ffurflen hon:*

| **MANYLION PERSONOL** | | | |
|---|---|---|---|
| **Teitl:** | | **Enw Llawn:** | |
| **Cyfeiriad Cartref:** | | | |
| | | | |
| | | **Cod Post:** | |
| **Rhif Ffôn:** | | **Dyddiad Geni:** | |
| **E-bost:** | | **Rhif YG:** | |
| **Statws Priodasol / Sifil:** | **Sengl / Priod / Mewn Partneriaeth Sifil / Wedi Ysgaru / Gweddw / Wedi Goroesi Partner Sifil / Cydfyw** | | |
| **Rhif Talu:** | | **Dyddiad Dechrau:** | |

**Bydd eich dewis i optio allan fel arfer yn dyfod yn effeithiol o ddiwedd y cyfnod talu y cafodd yr hysbysiad hwn ei ddychwelyd ynddo i'r Adran Bensiynau. Os ydych am iddo fod yn weithredol o ddiwedd cyfnod cyflogres ddiweddarach, nodwch hynny fan hyn………………………………………….**

**DATGANIAD**

Rwyf wedi darllen yr holl nodiadau cyfarwyddyd trosodd ac ystyried y buddion sy'n cael eu cynnig gan Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i Gynghorwyr ac rwyf yn cadarnhau fy mod am optio allan o gynilion pensiwn mewn perthynas â fy swydd fel Cynghorydd.

Rwyf yn deall fy mod, wrth optio allan, yn colli'r hawl am gyfraniadau pensiwn oddi wrth Gyngor Sir Powys, ac mae'n bosibl y bydd gen i incwm is pan fyddaf yn ymddeol.

| **Arwyddwyd** | | **Dyddiad** | |
|---|---|---|---|

Powys Cronfa Pensiwn Pension Fund

cpll Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

# NODIADAU CYFARWYDDYD

Wrth gwblhau'r ffurflen hon byddwch yn optio allan o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (y Cynllun) i Gynghorwyr, a byddwch felly yn rhoi'r gorau i'r cyfle i gyfranogi yn y Cynllun a fyddai'n rhoi gwarant o becyn o fuddion a gefnogir yn ôl y gyfraith, gan gynnwys:

- **pensiwn blynyddol sicr** – taladwy gydol oes sy'n cynyddu gyda chostau byw.
- **opsiwn arian parod di-dreth** – gallwch amnewid rhan o'ch pensiwn am beth arian parod di-dreth.
- **opsiwn gwirfoddoli i ymddeol yn gynnar** – o 55 oed, neu o 50 oed gyda chaniatâd y Cyngor*. (Bydd yr oedran pensiwn isaf normal yn cynyddu o 55 i 57 o 6 Ebrill 2028 ar draws y rhan fwyaf o gynlluniau pensiwn.) Nodwch mai dim ond ar ôl i chi adael eich swydd y gellir talu buddiannau i chi, ac os y'u telir yn gynnar (hynny yw cyn 65 oed), mae'n bosibl y byddant wedi eu cwtogi. *Fel arfer byddai buddiannau sy'n cael eu talu cyn 55 oed yn cael eu hawdurdodi o dan reolau CThEF a byddent yn amodol ar gostau treth sylweddol.
- **yswiriant salwch difrifol** – mae'n bosibl y bydd eich buddiannau'n dyfod yn daladwy gydol oes gyda chynnydd posibl
- **yswiriant bywyd ychwanegol** – â chyfandaliad o dair gwaith eich lwfans cyfartalog, pe byddech yn marw yn ystod eich cyfnod yn y swydd.
- **buddiannau'r goroeswr** - pensiwn i'ch priod, partner sifil a/neu unrhyw blant cymwys a allai fod gennych.

Os fyddwch yn optio allan gydag aelodaeth sy'n fyrrach na thri mis yn y Cynllun, mae'n bosibl y byddwch yn gymwys i dderbyn ad-daliad o'ch cyfraniadau pensiwn, ar yr amod nad ydych eisoes wedi cael buddiant wedi ei ohirio yn y Cynllun yng Nghymru neu Loegr. Gallwch ohirio gwneud penderfyniad nes i chi un ai ail-ymuno â Chronfa Bensiwn Powys, cymryd ad-daliad neu ymuno â chynllun pensiwn newydd (mae'n bosibl y byddwch yn gallu trosglwyddo allan, am gyfnod cyfyngedig).

Os oes o leiaf dri mis o aelodaeth gennych, gallwch adael eich buddiannau sydd wedi cronni yn y Cynllun a byddant yn dyfod i fod yn fuddiannau 'gohiriedig'. Gallwch hefyd drosglwyddo i ran fwyaf o gynlluniau personol neu gyflogwr (ond dim ond pan fyddwch o leiaf 12 mis i ffwrdd o oedran ymddeol cyffredin, hynny yw 65). Fodd bynnag, ni allwch drosglwyddo i mewn i Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yng Nghymru na Lloegr oni bai eich bod chi'n cyfranogi eto yn yr un awdurdod gweinyddu Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ag aelod sy'n Gynghorwr, hynny yw, gyda Chyngor Sir Powys.

Rhaid i'ch pensiwn gael ei dalu allan cyn eich pen blwydd yn 75, a hynny p'un a ydych yn parhau yn eich swydd ai peidio.

**Dychwelwch y ffurflen wedi'i chwblhau i: Yr Adran Bensiynau, Cyngor Sir Powys, Neuadd y Sir, Llandrindod, Powys, LD1 5LG neu e-bostiwch gopi pdf wedi ei sganio i pensions@powys.gov.uk**

Gallwch gael rhagor o wybodaeth ar ein gwefan www.powyspensionfund.org neu cysylltwch â ni: pensions@powys.gov.uk

Powys Cronfa Pensiwn Pension Fund

cpllll | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol